Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Park Crescent Dental Care

28 Mai 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



Digidol ISBN 978-1-4734-3927-6


© Hawlfraint y Goron 2015

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .......... 2

2. Methodoleg .......... 2

3. Cyd-destun .......... 4

4. Crynodeb .......... 5

5. Canfyddiadau .......... 6

Profiad y Claf .......... 6

Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal .......... 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 13

Ansawdd yr Amgylchedd .......... 16

6. Y Camau Nesaf .......... 18

Atodiad A .......... 19

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Park Crescent Dental Care, 29 Park Crescent, y Barri, CF62 6HE, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 28 Mai 2015.

Ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol gennym yn ystod yr arolygiad:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.[1] Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[2] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[3] Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal ag unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol eraill.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh

[3] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

## 3. Cyd-destun

Mae Park Crescent Dental Care yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal y Barri, Bro Morgannwg. Mae’r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Mae Park Crescent Dental Care yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae’r prif ddeintydd yn hyfforddwr Deintyddol Sylfaenol cymwys. O ganlyniad, mae’r practis yn cynnig lleoliadau a chymorth i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy’n cyflawni eu blwyddyn gyntaf mewn practis deintyddol (ar ôl cwblhau eu gradd brifysgol).

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys un prif ddeintydd, un deintydd blwyddyn sylfaen, hylenydd rhan amser, dwy nyrs ddeintyddol, a dau dderbynnydd.

Darperir amrywiaeth lawn o wasanaethau deintyddol y GIG a deintyddiaeth breifat, sy'n cynnwys y canlynol:

- Asesiadau a thriniaethau'r geg
- Hylendid deintyddol
- Deintyddiaeth gosmetig a chymhleth
- Tynnu dannedd, llenwadau’r gwreiddyn, pontydd, a dannedd gosod

## 4. Crynodeb

Ystyriodd AGIC sut roedd Park Crescent Dental Care yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015.

Fe'n hysbyswyd gan gleifion eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y practis deintyddol. Fe'n hysbyswyd gan gleifion hefyd bod y staff yn broffesiynol a chroesawgar ac yn rhoi digon o wybodaeth iddynt am eu gofal a'u triniaeth.

Gwnaethom siarad â dau o gleifion a fynychodd y practis ar ddiwrnod ein harolygiad. Cynigiodd y ddau unigolyn sylwadau cadarnhaol am eu profiad o'r gwasanaeth hyd yn hyn.

Gwnaethom hysbysu'r practis o'r angen i wahodd sylwadau ac awgrymiadau gan gleifion fel ffordd o wella'r gwasanaethau a ddarperir. Gwnaethom hefyd dynnu sylw at yr angen i wella'r broses pryderon/cwynion.

Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni safonau proffesiynol a'r Safonau Iechyd a Gofal perthnasol.

Rydym wedi gwneud argymhellion i wella agweddau ar weithdrefn ddadheintio'r practis a chynnwys cofnodion cleifion.

Y prif ddeintydd oedd yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd gyda chefnogaeth tîm cyfeillgar a brwdfrydig.

Gwelsom y staff yn gweithio'n effeithlon fel tîm, a dywedodd yr holl staff wrthym eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu swyddogaethau.

Roedd gan y practis deintyddol nifer o bolisïau perthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith, â'r bwriad o ddarparu gofal diogel i'r cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu'r tîm deintyddol o'r angen i adolygu'r holl bolisïau sydd ar waith i adlewyrchu arfer a chanllawiau proffesiynol cyfredol.

Mae'r practis wedi cael ei hysbysu o'r angen i ddiwygio ei weithdrefn pryderon (cwynion) i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n llawn y trefniadau a nodir yn *'Gweithio i Wella'* y GIG a gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.

Roedd adeilad y practis yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion wrth iddynt dderbyn gofal a thriniaeth.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y practis deintyddol. Dywedodd cleifion hefyd wrthym fod y staff yn broffesiynol a chroesawgar ac yn rhoi digon o wybodaeth iddynt am eu gofal a'u triniaeth.**

**Gwnaethom siarad â dau o gleifion a fynychodd y practis ar ddiwrnod ein harolygiad. Cynigiodd y ddau unigolyn sylwadau cadarnhaol am eu profiad o'r gwasanaeth hyd yn hyn.**

**Gwnaethom hysbysu'r practis am yr angen i wahodd sylwadau ac awgrymiadau gan gleifion fel ffordd o wella'r gwasanaethau a ddarperir.Gwnaethom hefyd dynnu sylw at yr angen i wella'r broses pryderon/cwynion.**

Gwnaethom anfon holiaduron cleifion AGIC at y practis deintyddol cyn ein harolygiad, a chwblhawyd 20 ohonynt.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y driniaeth roeddent wedi'i derbyn yn y practis a'u bod yn cael croeso gan y staff. Dywedodd dau o gleifion wrthym eu bod wedi profi oedi wrth aros i gael eu gweld gan y deintydd, er bod achlysuron o'r fath yn brin. Roedd sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd gan gleifion yn cynnwys y canlynol:

> *'Mae gwasanaeth ardderchog yn cael ei ddarparu.'*
>
> *'Rydw i'n hapus gyda'r gwasanaeth rwy'n ei dderbyn.'*
>
> *'Mae'r staff yn gwbl broffesiynol ac yn hawdd mynd atynt. Maen nhw bob amser yn tawelu fy meddwl.Diolch.'*
>
> *'Mae pawb yn groesawgar a chymwynasgar iawn, yn arbennig gan fy mod yn cael problemau cerdded.'*

Gwnaethom sgwrsio â dau o gleifion yn y pracis ar ddiwrnod ein harolygiad. Cawsom farn gadarnhaol ymhellach ganddynt am y gofal a thriniaeth roeddent wedi eu derbyn a'u gallu i drefnu apwyntiadau ar amseroedd a oedd yn cyd-fynd yn dda â'u bywydau cartref a gwaith.

Pan ofynnwyd i'r cleifion am wybodaeth am driniaeth, dywedodd yr holl gleifion fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth yr oedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl. Roedd sylwadau cleifion am yr agwedd hon ar y gwasanaeth yn cynnwys y canlynol:

*'Yn gyffredinol, ydw.'*

*'Gwasanaeth gwych bob tro.'*

*'Rwyf wastad wedi cael y practis hwn i fod yn ofalgar a threfnus.'*

*'Mae fy nheulu cyfan yn mynychu, ac rydym bob amser wedi derbyn gwasanaeth ardderchog yma. Mae staff bob amser yn gyfeillgar ac yn gymwynasgar, yn arbennig pan oedd fy mhlant yn iau ac yn bryderus am ddod yma.'*

Nododd tri chlaf a gwblhaodd holiadur AGIC nad oeddent yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Fodd bynnag, roedd y rhif brys/y tu allan i oriau ar gael yn y daflen wybodaeth i gleifion, ac roedd yn cael ei arddangos yn adeilad y practis deintyddol. Roedd y neges ar y peiriant ateb yn rhoi gwybodaeth y tu allan i oriau i gleifion hefyd.

Roedd y practis yn cynnig apwyntiadau rheolaidd ac apwyntiadau brys, ac roedd ar agor o ddydd Llun i ddydd Iau rhwng 8.30 a.m. a 5.30 p.m. Mae ar agor rhwng 8.30 a.m. a 2 p.m. ar ddydd Gwener. Roedd y gwasanaeth yn cau am awr bob dydd rhwng 12.30 p.m. a 1.30 p.m.

Dywedodd y cleifion eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau yn y practis ac nad oedd ganddynt unrhyw gwynion na phryderon. Fodd bynnag, nododd pump o'r 20 claf a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn ymwybodol o sut i wneud cwyn am eu gofal neu driniaeth, pe bai'r angen yn codi. Yn ogystal, gwelsom nad oedd proses/gweithdrefn gwyno 'fewnol' y practis yn cael ei harddangos yn unrhyw le i helpu cleifion i ddeall eu hawliau yn hyn o beth. Ond fe wnaethom nodi bod rhai llyfrynnau 'Gweithio i Wella' y GIG ar gael yn yr ystafell aros ar y llawr daear.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n ofynnol i'r practis ddangos sut y bydd yn sicrhau bod cleifion y GIG yn cael y wybodaeth gywir ynglŷn â sut i wneud cwyn am wasanaethau deintyddol a dderbynnir yn y practis.***

Dangosodd sgyrsiau gydag aelodau o'r tîm deintyddol y pwyslais a roddir ar sicrhau bod cleifion yn fodlon ar eu triniaeth cyn gadael y practis yn ystod pob ymweliad.

Dywedodd staff wrthym nad oedd unrhyw ddull ffurfiol i'r cleifion roi adborth i'r practis trwy systemau megis blwch awgrymiadau, llyfr sylwadau neu arolygon cleifion rheolaidd.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Dylai'r practis ystyried sut i dderbyn a defnyddio adborth cleifion fel ffordd o ganfod pa wasanaethau sydd eu hangen ac er mwyn gwella'u hansawdd.***

## *Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal*

**Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg gyda'r bwriad o fodloni safonau proffesiynol a'r Safonau Iechyd a Gofal perthnasol.**

**Rydym wedi gwneud argymhellion i wella agweddau ar weithdrefn ddadheintio'r practis a chynnwys cofnodion cleifion.**

Offer radiograffig

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffig (pelydr-X) yn ddiogel. Roedd hyn yn cynnwys dogfennau perthnasol yn ymwneud â hyfforddiant staff, gwiriadau diogelwch, a chynnal a chadw a phrofion ar offer.

Cadarnhaodd sgwrs â'r tîm deintyddol fod ansawdd y sganiau pelydr-X a gymerid yn cael ei ystyried, ei gofnodi a'i drafod bob dydd. Dywedwyd wrthym hefyd fod y tîm yn dewis pelydrau-X at ddibenion addysgu a bod y rhain yn cynorthwyo deintyddion sylfaen i ddysgu am bwysigrwydd cyfiawnhau pelydrau-X cleifion a chael pelydrau-X o ansawdd. Fodd bynnag, nid oedd sesiynau/archwiliadau o'r fath yn cael eu cofnodi, a byddai gwneud hyn yn rhoi arweiniad defnyddiol i'r tîm mewn perthynas â'r elfen hon o ddarpariaeth gwasanaeth.

Gwelsom nad oedd unrhyw arwyddion y tu allan i ystafelloedd triniaeth i rybuddio staff a'r cyhoedd bod ymbelydredd ïoneiddio (pelydrau-X) yn cael ei ddefnyddio. Arweiniodd trafodaeth gyda'r tîm deintyddol at barodrwydd i fynd i'r afael â'r mater hwn fel ffordd ychwanegol o sicrhau diogelwch y staff a'r cyhoedd.

Cadw cyffuriau ac offer ar gyfer argyfwng

Roedd gweithdrefnau ar waith gan y practis i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Gwelsom gofnodion a oedd yn nodi bod staff wedi derbyn hyfforddiant i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni adfywiad cardio-pwlmonaidd. Roedd offer dadebru a chyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng ar gael pe bai argyfwng cleifion (llewygu) yn y practis. Roedd cofnodion ar gael a oedd yn cadarnhau bod gwiriadau bob wythnos ar waith i sicrhau bod cyffuriau a/neu offer yn cael eu newid cyn eu dyddiad dod i ben.

Dywedwyd wrthym fod aelod o'r tîm deintyddol wedi derbyn hyfforddiant diweddar i ddefnyddio cymorth cyntaf.

Dadheintio

Roedd gan y practis ystafell benodol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol. Gwnaethom gynnal sgyrsiau â'r staff hefyd, ac roeddem yn fodlon bod prosesau addas ar waith i leihau'r risg o groes-heintio er mwyn amddiffyn y cleifion. Gwelsom fod digon o offer ar gael at ddibenion dadheintio. Roedd sinc golchi dwylo neilltuedig ar gael, ac roedd eitemau untro (megis cyfarpar diogelu llygaid, menig a ffedogau) ar gael i helpu staff â'u gweithdrefnau sefydledig ar gyfer rheoli heintiau.

Gwelsom fod yr ystafell ddadheintio ychydig yn anniben, a oedd yn golygu bod llai o le ar yr arwyneb gwaith ar gael i staff.

Gwelsom nad oedd ffan echdynnu wedi ei gosod ar adeg ein harolygiad i helpu aer i lifo o ochr 'offer deintyddol glân' yr ystafell at ochr yr ystafell lle roedd offer deintyddol budr yn cael eu prosesu. Roedd hyn yn golygu y gallai gronynnau o aer brwnt ail-heintio'r offer deintyddol glân. Fodd bynnag, roedd y tîm yn gwneud y defnydd gorau posib o awyru naturiol, a disgrifiodd y staff yn eglur sut roeddent yn sicrhau bod offer glân ac offer budr yn cael eu gwahanu yn yr ystafell ddadheintio. Datgelodd trafodaeth ag aelod o'r tîm deintyddol fod y gwaith o ddatblygu'r ystafell ddadheintio yn dal i fynd rhagddo, a bod cynlluniau wedi cael eu gwneud i gyflwyno ffan echdynnu i'r ardal hon.

Gwelsom fod nifer fawr o offer deintyddol wedi eu sterileiddio mewn pecynnau nad oeddent wedi cael eu selio ym mhob un o'r tair ystafell driniaeth. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd y pecynnau'n dangos pryd roedd y broses sterileiddio wedi ei chynnal, nac erbyn pryd roedd angen defnyddio'r offer deintyddol. Golygai hyn fod posibilrwydd y gallai'r offer deintyddol sydd wedi cael eu storio gael eu ail-heintio. Tynnwyd sylw'r tîm deintyddol at y materion hyn pan gawsant eu darganfod er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu hamddiffyn.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Hysbysir y practis o'r angen i ddisgrifio'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r broses ddadheintio i sicrhau bod offer deintyddol wedi'u sterileiddio yn cael eu prosesu yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

Gwelsom fod y practis wrthi'n cwblhau archwiliad o atal a rheoli heintiau a dadheintio gan ddefnyddio dogfennau a oedd yn cyd-fynd â chanllawiau

Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[4] Awgrymodd aelod o'r tîm deintyddol hefyd y byddai cynllun gwella'n cael ei ddatblygu ar ôl cwblhau'r gwaith. Bwriad yr ymarfer hwn oedd gwneud gwelliannau pellach i'r broses ddadheintio cyn belled â phosibl.

Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio offer wedi cael eu cadw, a oedd yn dangos bod pob eitem yn dal yn effeithiol ac mewn cyflwr da er mwyn helpu gyda diogelwch cleifion.

<u>Gwaredu gwastraff</u>

Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom fod gwastraff wedi cael ei ddidoli a'i roi mewn bagiau/cynwysyddion o wahanol liwiau, yn unol â'r dull cywir o gael gwared arno. Roedd y rhain wedi'u storio mewn cwpwrdd wrth aros i cael eu casglu. Fodd bynnag, er bod bachyn ar y drws i atal mynediad heb ganiatâd, fe allai pobl ar wahân i'r staff agor drws y cwpwrdd. Derbyniodd y tîm deintyddol ein hawgrym y dylid rhoi clo ar y drws, er mwyn gwella diogelwch.

<u>Cyfleusterau clinigol</u>

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a gwelsom eu bod yn cynnwys offer perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd dwy o'r ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ac yn hylan. Fodd bynnag, roedd angen glanhau'r drydedd ystafell driniaeth (nad oedd yn cael ei defnyddio bob dydd). Yn benodol, roedd droriau'n edrych yn llychlyd ac roedd annibendod ar yr arwynebau gwaith. Tynnwyd sylw'r tîm deintyddol at hyn, a gwnaethant ddatgan eu parodrwydd i fynd i'r afael â'r mater hwn yn brydlon. Nid oedd yr ystafell driniaeth a ddisgrifir uchod yn cael ei defnyddio ar ddiwrnod ein harolygiad.

<u>Cofnodion cleifion</u>

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o ddeg o gofnodion cleifion sy'n gysylltiedig â'r ddau ddeintydd sy'n gweithio yn y practis. Yn gyffredinol, roedd y cofnodion ysgrifenedig ac electronig a welsom o safon dda.

---

[4] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) yn darparu canllawiau ar ddadheintio i weithwyr proffesiynol mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd rhai o'r cofnodion a welsom yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol. Roedd hyn fel a ganlyn:

- Nid oedd cofnod o gyngor ar roi'r gorau i ysmygu.
- Roedd yn anodd dod o hyd i hanesion meddygol oedd wedi cael eu cofnodi'n llawn neu eu diweddaru, ac roedd yn anodd dod o hyd i gydlofnod gan y deintyddion. Roedd hyn oherwydd bod hanesion meddygol newydd a diwygiedig yn cael eu cadw ar bapur, gan ei gwneud yn anodd i groesgyfeirio'r wybodaeth gyda hanesion meddygol oedd wedi eu rhoi ar y system cyfrifiadur.
- Nid oedd digon o drafodaethau rhwng y deintyddion a'r cleifion ynghylch opsiynau triniaeth.
- Nid oedd tystiolaeth o sut y cafwyd cydsyniad y claf i driniaeth yn unrhyw un o'r cofnodion a welwyd.
- Nid oedd cofnod o esboniadau i gleifion mewn perthynas â sgrinio ar gyfer canser y geg.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Hysbysir y practis o'r angen i sicrhau bod cofnodion pob claf yn cynnwys gwybodaeth gyflawn yn unol â safonau proffesiynol, canllawiau a'r Safonau Iechyd a Gofal.***

Gwelsom fod cleifion yn derbyn pelydrau-X yn ystod cyfnodau amser priodol, a bod ansawdd y pelydrau-X yn cael ei fonitro.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Y prif ddeintydd oedd yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd gyda chefnogaeth tîm cyfeillgar a brwdfrydig.**

**Gwelsom y staff yn gweithio'n effeithlon fel tîm, a dywedodd pob aelod o staff wrthym eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu swyddogaethau.**

**Roedd gan y practis nifer o bolisïau perthnasol a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith, â'r bwriad o ddarparu gofal diogel i gleifion.Fodd bynnag, gwnaethom hysbysu'r tîm deintyddol o'r angen i adolygu'r holl bolisïau sydd ar waith i adlewyrchu arfer a chanllawiau proffesiynol cyfredol.**

**Mae'r practis wedi cael ei hysbysu o'r angen i ddiwygio ei weithdrefn pryderon (cwynion) i sicrhau ei bod yn adlewyrchu'n llawn y trefniadau a nodir yn *'Gweithio i Wella'* y GIG a gofynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.**

Gwelsom fod tîm bach o staff cyfeillgar a brwdfrydig yn y practis deintyddol, yr oedd rhai ohonynt wedi gweitho gyda'r prif ddeintydd ers blynyddoedd lawer. Gwnaethom siarad hefyd â phob aelod o'r tîm oedd yn bresennol ar ddiwrnod ein harolygiad, a gwelsom eu bod yn cael eu cefnogi ac yn hapus yn eu rolau a gyda'u man gwaith. Dywedodd staff wrthym hefyd eu bod yn hyderus wrth leisio unrhyw bryderon yr oedd ganddynt yn ymwneud â gwaith.

Roedd y deintydd blwyddyn sylfaenol (hyfforddai) yn derbyn goruchwyliaeth barhaus gan ei hyfforddwr, a dywedodd wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael cefnogaeth dda. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant oedd wedi ei threfnu ymlaen llaw yn ystod ein hymweliad.

Dywedodd staff wrthym nad oedd cyfarfodydd tîm ffurfiol yn cael eu cynnal oherwydd bod yn well ganddynt drafod agweddau ar ddarparu gwasanaeth yn ddyddiol, gan wneud gwelliannau i ofal a thriniaeth cleifion mor brydlon a chyn belled â phosibl.

Roedd gan y practis amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol, gyda'r bwriad o sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu darparu'n ddiogel. Fodd bynnag, nid oedd yr un o'r rhain wedi cael ei adolygu am oddeutu pum mlynedd. Hefyd, roedd y polisi chwythu'r chwiban yn berthnasol i awdurdod lleol yn Lloegr. Trafodwyd y materion uchod gydag aelod o'r tîm deintyddol.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Hysbysir y practis o'r angen i ddisgrifio'r camau gweithredu i'w cymryd a fydd yn sicrhau bod gan bob aelod o'r tîm deintyddol fynediad at bolisïau cyfredol a pherthnasol i'w cynorthwyo wrth iddynt wneud eu gwaith.***

Roedd gan y practis bolisi/weithdrefn ar waith i gefnogi'r angen i hysbysu cleifion y GIG ynglŷn â sut i leisio pryderon (cwynion) am eu gofal neu driniaeth ddeintyddol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y polisi/weithdrefn yn gwneud unrhyw gyfeiriad penodol at drefniadau 'Gweithio i Wella' y GIG. Nid oedd y weithdrefn yn hysbysu cleifion am eu hawl i holi am gymorth gyda'u cwyn gan y cyngor iechyd cymuned lleol, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ychwaith.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n ofynnol bod y practis yn disgrifio'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod ei bolisi a gweithdrefn pryderon (cwynion) yn adlewyrchu'n llawn y trefniadau cyfredol a nodir yn 'Gweithio i Wella'.***

Gwelsom nad oedd y polisi/weithdrefn yn ymwneud â chleifion sy'n derbyn gofal a thriniaeth ddeintyddol preifat yn gwneud unrhyw gyfeiriad at amserlenni ar gyfer cydnabod neu ddatrys cwynion. At hynny, nid oedd y weithdrefn yn cyfeirio at Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o gwbl, fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.[5]

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae'n ofynnol bod y practis yn disgrifio'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag elfen cwynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.***

Roedd gan y practis system briodol ar gyfer cofnodi cwynion ysgrifenedig, er nad oedd cofnod bod unrhyw gwynion wedi cael eu derbyn yn y 12 mis diwethaf. Dywedwyd wrthym hefyd fod y tîm yn rhoi pwyslais ar ddatrys unrhyw gwynion llafar a leisir gan gleifion 'yn y fan a'r lle'.

Gwelsom fod y practis wedi cwblhau archwiliadau yn y 12 mis diwethaf mewn perthynas â defnyddio gwrthfiotigau ac amlder pelydrau-X cleifion. Roedd hyn yn golygu bod gan y practis drefniadau addas a pharhaus ar waith i ymchwilio a

[5] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat 2008

gwirio agweddau ar ddarpariaeth gwasanaeth, gyda'r nod o wella gwasanaethau cleifion.

Roeddem yn gallu cadarnhau bod yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn ôl y gofyn. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod yr holl staff wedi derbyn amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddiant oedd yn berthnasol i'w swyddogaethau ac ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant amddiffyn plant ac amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed. Roedd hyn yn golygu y gallai'r cleifion fod yn sicr eu bod yn cael eu trin gan staff sy'n meddu ar sgiliau priodol a hyfforddiant cyfredol. Gwelsom hefyd dystiolaeth fod yswiriant indemniad priodol ar waith ar gyfer pob aelod o staff clinigol.

Dywedwyd wrthym fod cyfnod cynefino ffurfiol ar waith i roi cymorth i gyflogeion newydd. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth gan staff a oedd yn hyderus ac yn gyfarwydd â phrosesau a gweithdrefnau yn eu man gwaith.

Datgelodd trafodaeth â'r prif ddeintydd ac aelodau eraill o'r tîm deintyddol fod trosiant a lefelau salwch/absenoldeb staff yn isel iawn. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd y practis yn defnyddio nyrsys asiantaeth o gwbl oherwydd roedd gan y practis drefniant hirdymor gyda phractisau deintyddol lleol eraill, oedd yn golygu eu bod yn rhoi cymorth i'w gilydd ar adegau o wyliau blynyddol neu salwch staff. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn gofal a thriniaeth gan dîm deintyddol oedd yn gyfarwydd iddynt.

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion brechiadau ac imiwnedd hepatitis B yn ffeiliau’r staff. Roedd hyn yn golygu bod y practis wedi cymryd camau priodol i amddiffyn staff a chleifion. Dywedwyd wrthym hefyd bod cymorth a chyngor ynglŷn â'u gwaith ar gael i'r tîm deintyddol gan adran iechyd galwedigaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, yn ôl yr angen.

Gwnaethom archwilio amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw ac amserlenni yn y practis deintyddol. Roedd hyn yn cynnwys profi dyfeisiadau cludadwy. Roeddem yn gallu cadarnhau felly bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod offer yn cael eu harchwilio yn unol â gofynion rheoleiddio, fel y gellid trin cleifion yn ddiogel.

Roedd tystysgrifau cofrestru AGIC wedi’u harddangos yn y practis deintyddol ar gyfer pob un o'r deintyddion oedd yn darparu deintyddiaeth breifat. Roedd hyn yn unol â'r rheoliadau perthnasol.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Roedd adeilad y practis yn cynnig amgylchedd diogel i gleifion wrth iddynt dderbyn gofal a thriniaeth.**

Mae Park Crescent Dental Care yn 29 Park Crescent, y Barri, CF62 6HE.

Nid oedd unrhyw lefydd parcio dynodedig ar gael yn y practis; fodd bynnag, roedd llefydd parcio ar gael mewn strydoedd cyfagos.

Roedd llawr daear y practis deintyddol yn cynnwys derbynfa ac un ystafell driniaeth. Roedd y ddwy ystafell driniaeth arall ar lawr cyntaf yr adeilad, a darperid canllawiau i gynorthwyo cleifion wrth ddefnyddio'r grisiau.

Nid oedd yr adeilad yn addas i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn. Mae hyn oherwydd bod grisiau'n arwain at y fynedfa. Roedd taflen cleifion y practis yn cyfeirio at y sefyllfa hon.

Gwelsom fod un ystafell aros ar y llawr daear a sedd i un claf aros ar y llawr cyntaf. Roedd y cyfuniad hwn yn rhoi digon o le i gleifion aros, mewn perthynas â nifer yr ystafelloedd triniaeth yn yr adeilad.

Roedd tŷ bach ar gyfer cleifion ac ardal ar wahân i olchi dwylo, ac roedd arwyddion clir atynt. Roedd mynediad i'r tŷ bach trwy gyfrwng gris o'r ystafell aros ar y llawr daear tuag at cefn yr adeilad. Roedd toiled i'r staff ar y llawr cyntaf. Roedd y ddau gyfleuster i'w gweld yn lân a hylan ac yn cynnwys offer priodol ar gyfer golchi dwylo'n effeithiol.

Roedd ystafell/cegin ar gael i staff lle gallent newid i'w gwisgoedd gwaith a chymryd seibiannau neilltuedig yn ystod y dydd.

Gwelsom fod y practis yn arddangos dogfennau dilys ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Roedd amrywiaeth eang o ddeunydd hyrwyddo iechyd deintyddol ar gael i'r cleifion yn yr ystafell aros ar y llawr daear.

Roedd pob rhan o’r adeilad yn lân, yn groesawgar, yn ffres ac yn daclus, ac eithrio un o'r tair ystafell driniaeth. Gellir gweld mwy o wybodaeth ynglŷn â'r mater hwnnw yn adran 'Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal' yr adroddiad hwn. Gwelsom hefyd fod y practis wedi’i wresogi a’i awyru’n ddigonol a bod goleuadau addas yno.

Roedd enwau a chymwysterau'r deintyddion wedi’u harddangos yn glir ar flaen yr adeilad, ynghyd â rhif ffôn y practis.

Roedd allanfeydd tân wedi'u harwyddo'n glir.

## 6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran profiad y claf, cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal, a rheolaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Park Crescent Dental Care yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a bydd yn cael ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

*Atodiad A*

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Park Crescent Dental Care, 29 Park Crescent, y Barri**

**Dyddiad yr arolygiad: 28 Mai 2015**

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Profiad y Claf** | | | |
| Tudalen 7 | Mae'n ofynnol i'r practis ddangos sut y bydd yn sicrhau bod cleifion y GIG yn cael y wybodaeth gywir ynglŷn â sut i wneud cwyn am wasanaethau deintyddol a dderbyniwyd yn y practis.<br><br>Safon Iechyd a Gofal 6.3 Safon 5.1 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol | Byddwn yn sicrhau bod ein gweithdrefn gwyno ar gyfer y GIG a chleifion preifat yn fwy gweladwy. Mae gennym ddogfennau a pholisïau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer cleifion sy'n lleisio pryder, ac mae copïau o daflenni Llywodraeth Cymru 'Gweithio i Wella' ar gyfer cleifion y GIG eisoes ar hysbysfyrddau sy'n hygyrch i gleifion. Byddwn yn cynhyrchu hysbysiad i amlygu'r wybodaeth a roddir yn y rhain a dangos bod gweithdrefnau tebyg ar gael i gleifion preifat. | Marcus Brown | Pythefnos |
| Tudalen 8 | Dylai'r practis ystyried sut i nodi a defnyddio adborth cleifion fel ffordd o ganfod pa wasanaethau sydd eu hangen ac er mwyn gwella'u hansawdd. | Roedd yr adborth gan yr holiaduron a ddosbarthwyd cyn ymweliad AGIC yn ffafriol ar y cyfan. Byddwn yn ystyried defnyddio holiaduron yn amlach er mwyn canfod a oes unrhyw beth y | Marcus Brown | Dau fis |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Safon Iechyd a Gofal 6.3 Safon 2.2 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol | gallwn ei wneud i wella'r gwasanaeth a ddarperir. | | |
| | **Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal** | | | |
| Tudalen 10 | Hysbysir y practis o'r angen i ddisgrifio'r newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r broses ddadheintio i sicrhau bod offer deintyddol sydd wedi cael eu sterileiddio yn cael eu prosesu yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.<br><br>Safon Iechyd a Gofal 2.4 | Byddwn yn sicrhau bod yr holl offer deintyddol a chyfarpar sydd wedi cael eu dadheintio ac wedi bod yn yr awtoclaf yn cael eu selio mewn bagiau a'u dyddio ac nad ydynt yn cael eu gadael ar agor am amser ar ôl bod yn yr awtoclaf.<br><br>Rwyf yn bwriadu cael ffan echdynnu wedi ei gosod yn yr ystafell ddadheintio i sicrhau bod aer yn llifo o'r ochr lân i'r ochr fudr. | Alison Pope<br><br>Rebecca Murlis<br><br>Marcus Brown | Ar unwaith<br><br>Dau fis |
| Tudalen 12 | Hysbysir y practis o'r angen i ddangos sut y bydd yn sicrhau bod yr holl gofnodion cleifion yn cynnwys gwybodaeth gyflawn yn unol â safonau proffesiynol, canllawiau, a'r Safonau Iechyd a Gofal.<br><br>Safonau Iechyd a Gofal 3.5 a 4.2<br><br>Safon 4 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol | Byddwn yn fwy trwyadl wrth sicrhau bod cyngor am roi'r gorau i ysmygu'n cael ei gofnodi mewn cofnodion yn hytrach na chael ei ddosbarthu'n unig. Byddwn yn parhau i sicrhau bod cofnodion meddygol llawn a chyfredol yn cael eu cofnodi a'u llofnodi gan y deintyddion ar gyfer pob claf.<br><br>Byddwn yn parhau i sicrhau bod cyfeiriad at archwiliad o feinwe feddal a'i arwyddocâd i ganser y geg yn cael ei gofnodi mewn nodiadau.<br><br>Byddwn yn sicrhau bod trafodaethau rhwng y | Deintyddion | Ar unwaith |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | deintyddion a'r cleifion ynghylch opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi mewn nodiadau.<br><br>Byddwn yn sicrhau bod tystiolaeth bod cydsyniad claf i driniaeth wedi ei dderbyn ac wedi ei gofnodi mewn nodiadau. | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| Tudalen 14 | Hysbysir y practis o'r angen i ddisgrifio'r camau gweithredu i'w cymryd a fydd yn sicrhau bod gan bob aelod o'r tîm deintyddol fynediad at bolisïau cyfredol a pherthnasol i'w cynorthwyo wrth iddynt wneud eu gwaith.<br><br>Safonau Iechyd a Gofal 2.1, 2.9, 3.1, 3.4 | Bydd polisïau'n cael eu hadolygu a'u diweddaru fel y bo angen ac yn cael eu hadolygu'n fwy rheolaidd. | Marcus Brown | Pythefnos |
| Tudalen 14 | Mae'n ofynnol bod y practis yn disgrifio'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau bod ei bolisi a gweithdrefn pryderon (cwynion) yn adlewyrchu'n llawn y trefniadau cyfredol a nodir yn 'Gweithio i Wella'.<br><br>Safon Iechyd a Gofal 6.3 | Byddwn yn sicrhau bod polisïau/gweithdrefnau yn ymwneud â chleifion y GIG sy'n lleisio pryderon yn cyfeirio at ddeunydd darllen 'Gweithio i Wella'.<br><br>Byddwn hefyd yn cyfeirio at yr hawl i geisio cymorth gan y cyngor iechyd cymuned lleol neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. | Marcus Brown | Ar unwaith |
| Tudalen 14 | Mae'n ofynnol bod y practis yn disgrifio'r camau gweithredu a gymerwyd i sicrhau ei | Byddwn yn sicrhau bod polisïau/gweithdrefnau yn ymwneud â chleifion preifat sy'n lleisio pryderon ynghylch gofal a thriniaeth yn cyfeirio at | Marcus Brown | Ar unwaith |

| Rhif y dudalen | Yr hyn sydd angen ei wella | Cam gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | fod yn cydymffurfio ag elfen cwynion Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat.<br><br>(Rheoliadau 15 ac 16) | amserlenni ar gyfer cydnabod a datrys, a byddwn yn cyfeirio at Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. | | |
| | Ansawdd yr Amgylchedd | | | |
| | Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella mewn perthynas â'r agwedd hon o'r arolygiad. | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** ......Marcus Brown..............................................................................

**Teitl:** ......Darparwr..............................................................................

**Dyddiad:** ......01/07/2015..........................................................................